ELGC(5)-24-18 Papur 9/ Paper 9

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

# **Cyflwyniad ysgrifenedig ar gyfer:** Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar dlodi eithafol a hawliau dynol

Medi 2018

## Y Pwyllgor

**1.** Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru, cytuno ar drethi yng Nghymru, a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**2.** Rydym yn Bwyllgor y Cynulliad, a sefydlwyd yn 2016 (yn dilyn etholiadau mis Mai 2016). Cawsom ein sefydlu i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Llywodraeth leol
- Tai
- Adfywio, cydlyniant a diogelwch cymunedol
- Trechu tlodi
- Cyfle cyfartal; a
- Hawliau dynol.

**3.** Rydym yn Bwyllgor trawsbleidiol, gyda chynrychiolaeth gan bob un o'r pedair plaid wleidyddol yn y Cynulliad. Ceir rhestr o'n haelodaeth yn Atodiad 1.

**4.** Roedd y pwyllgor a oedd yn ein rhagflaenu yn y Cynulliad diwethaf (2011-2016), sef y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, hefyd yn cymryd diddordeb brwd mewn tlodi. Mae'r cyflwyniad hwn yn tynnu ar waith y ddau bwyllgor. Mae rhestr o'r gwaith perthnasol ar gael yn Atodiad 2.

**5.** Nid ydym wedi ymateb i'r holl gwestiynau.

## Cyflwyniad

**6.** Mae mwy nag **un o bob pump** o bobl yng Nghymru (23 y cant o'r boblogaeth) yn byw mewn tlodi ar hyn o bryd, sef y lefel uchaf o holl wledydd y DU. Mae hyn yn golygu bod 710,000 o bobl yng Nghymru yn byw islaw'r llinell dlodi, gan gynnwys 185,000 o blant, 405,000 o oedolion o oedran gweithio a 120,000 o bensiynwyr.

**7.** Mae rhagolygon tlodi yng Nghymru yn rhagweld **nad yw'r sefyllfa yn debygol o wella**. Erbyn 2021-22, **amcangyfrifir** y bydd 27 y cant o boblogaeth Cymru yn byw mewn tlodi, ac y bydd 39 y cant o blant yn byw mewn tlodi.

**8.** Disgwylir i nifer y bobl yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi gynyddu 3 pwynt canran erbyn 2021-22. Y cynnydd hwn yw'r trydydd uchaf ymhlith pob un o ranbarthau'r DU, y tu ôl i Ogledd Iwerddon a gogledd-ddwyrain Lloegr yn unig, sy'n wynebu cynnydd o 4 pwynt canran yr un. Rhagwelir y bydd lefel tlodi plant yng Nghymru yn cynyddu 10 pwynt canran erbyn 2021-22, sy'n uwch na phob ardal heblaw gogledd-ddwyrain Lloegr, lle disgwylir i dlodi plant gynyddu 12 pwynt canran.

## (1) Beth yw'r diffiniad o dlodi a thlodi eithafol y mae'ch sefydliad yn ei ddefnyddio yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig ac i ba raddau y mae diffiniadau swyddogol a ddefnyddir gan y wladwriaeth yn cwmpasu tlodi yn ddigonol yn ei holl ddimensiynau?

**9.** Yn 2015, ymchwiliodd adroddiad ynghylch ***Tlodi ac anghydraddoldeb yng Nghymru*** gan y pwyllgor a oedd yn ein rhagflaenu i'r diffiniad o dlodi (neu ddiffyg) a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru. Argymhellodd y dylai'r Llywodraeth:

> "fabwysiadu diffiniad clir o dlodi, yn seiliedig ar anghenion ac adnoddau, yn hytrach na'r mesur safonol sy'n seiliedig ar incwm. Dylai dull y llywodraeth o drechu tlodi gael ei lunio ar sail mynd i'r afael ag anghenion dynol sylfaenol pob person – mae hyn yn golygu bwyd,

> cysgod a thanwydd. Hefyd, dylai'r diffiniad gyfeirio at yr ymchwil ynghylch 'safon incwm gofynnol' Sefydliad Joseph Rowntree, sy'n seiliedig ar yr hyn y mae aelodau o'r cyhoedd yn ei feddwl yw digon o arian i fyw arno er mwyn byw mewn ffordd sy'n dderbyniol yn gymdeithasol."

**10.** Nid oes gan Lywodraeth Cymru strategaeth dlodi ar hyn o bryd, fel yr oedd ganddi mewn Cynulliadau blaenorol. Mae hyn yn golygu nad yw o hyd yn cyhoeddi diffiniad clir o'r hyn y mae tlodi yn ei olygu, i'w ddefnyddio gan ei hadrannau ei hun, yn ogystal â chan awdurdodau lleol a chyrff yn y sectorau preifat a gwirfoddol sy'n gweinyddu gwasanaethau ar ei rhan gan ddefnyddio arian cyhoeddus.

**11.** Rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i unioni'r mater hwn dro ar ôl tro. Fe wnaeth dau o'n hadroddiadau diweddar yn edrych ar dlodi yng Nghymru, sef Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd a Gwneud i'r Economi Weithio i'r Rheini sydd ag Incwm Isel, yr un argymhelliad, a wrthodwyd gan Lywodraeth Cymru ar y ddau achlysur:

> "Rydym yn argymell yn gryf bod strategaeth glir ar gyfer trechu tlodi yn cael ei chyhoeddi, un sy'n dwyn ynghyd yr elfennau niferus o waith i leihau tlodi i helpu i ddarparu cyfeiriad clir ac i helpu'r Cynulliad i graffu ar ddull y Llywodraeth. Dylai'r strategaeth gynnwys dangosyddion perfformiad clir i sicrhau rheoli perfformiad effeithiol, yn ogystal â nodi sail dystiolaeth ehangach i helpu i ategu gwerthusiad effeithiol o wahanol ddulliau o drechu tlodi."

**12.** Wrth wrthod yr argymhelliad am yr ail dro, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod ei strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb' yn cynnig fframwaith ar gyfer ein dull llywodraeth gyfan o gynyddu ffyniant a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi mewn ffordd fwy effeithiol a chydgysylltiedig. Ychwanegodd ei bod am osgoi strategaethau ar wahân sy'n methu â defnyddio ymagwedd gyfannol tuag at faterion cymhleth. Dywedodd y gall ond ymateb yn effeithiol i'r her hirdymor o fynd i'r afael â thlodi drwy gydgysylltu popeth y mae'n ei wneud.

**13.** Nid ydym yn credu bod cael strategaeth â ffocws unigol yn atal y posibilrwydd o ymagwedd gyfannol tuag at fynd i'r afael â thlodi. Rydym yn arbennig o bryderus oherwydd nid ydym yn credu bod Ffyniant i Bawb a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi cysylltiedig yn pennu mesurau perfformiad, a chamau clir gyda therfynau amser cysylltiedig. Yn ein hadroddiad "Gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel", dywedom fod y "diffyg dangosyddion a cherrig milltir [yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi] yn hepgoriad sylweddol."

**14.** Rydym hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu un cynllun gweithredu cydgysylltiedig. Er y derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn 'mewn egwyddor', nid oedd ymateb y Llywodraeth yn rhoi sicrwydd i ni. Byddwn yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn.

## (2) Beth yw eich barn am ddull swyddogol y llywodraeth o fesur tlodi ar hyn o bryd, beth yw diffygion y dull presennol a pha ddewisiadau eraill a fyddai'n ymarferol?

**15.** Fe wnaeth y Pwyllgor a oedd yn ein rhagflaenu ystyried y mater hwn. Nododd ei **adroddiad yn 2015**:

> "Nid un grŵp penodol yw pobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru, ac mae angen i Lywodraeth Cymru wella'r data sydd ganddi am dlodi i adlewyrchu hyn.
>
> Oherwydd bod prinder data, clywsom fod llunwyr polisi ar hyn o bryd yn 'gweithio yn y tywyllwch'. Mae hyn yn annerbyniol. Mae angen i Lywodraeth Cymru fynd ati ar frys i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gref sy'n nodi'n union pwy sydd mewn tlodi, ac sy'n disgrifio'n glir ddwyster a dyfalbarhad tlodi yng Nghymru. Dylai hyn fynd law yn llaw â gwelliannau dramatig i'r trefniadau ar gyfer monitro rhaglenni presennol sy'n gallu dangos cynnydd pendant o ran lleihau tlodi, neu ddiffyg hynny. Fel arall, bydd y sefyllfa bresennol yn parhau: polisi yn cael ei ddatblygu heb dystiolaeth; perfformiad yn cael ei fonitro heb ddata."

**16.** Yn 2017 fel rhan o'n **hymchwiliad i ddiwedd prif raglen trechu tlodi Llywodraeth Cymru**, cawsom ein hargyhoeddi:

> "ei bod hi'n briodol i Lywodraeth Cymru ariannu astudiaeth hydredol o dlodi yng Nghymru i wneud yn iawn am y diffyg data sefydledig o Cymunedau yn Gyntaf. Mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor, amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ddwy astudiaeth â chefnogaeth Llywodraeth Cymru sy'n gallu darparu rhagor o ddata a gwybodaeth i helpu i lywio polisïau. Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried dichonoldeb creu mesur unigol o amddifadedd yng Nghymru gan ddefnyddio data gweinyddol. Croesawn y gwaith hwn, ond nid yw'n mynd yn ddigon pell yn ein barn ni. Rydym ni'n dal i gredu y byddai'n werth chweil i Lywodraeth Cymru bwyso a mesur dichonoldeb astudiaeth hydredol benodol o dlodi yng Nghymru."

**17.** **Ymatebodd** Llywodraeth Cymru drwy ddweud y bydd yn "gwneud gwaith i archwilio dichonoldeb astudiaeth hydredol, gan edrych ar y costau, yr opsiynau, y buddion ac effeithiau astudiaeth bosib ochr yn ochr â ffyrdd eraill o wella data. Yn ogystal, mae cryn bosibiliadau o ran cysylltu data drwy’r Rhwydwaith Ymchwil Data Gweinyddol a allai fod yn ffordd gryfach o ddeall canlyniadau unigolion dros amser, a hynny’n fwy manwl nag y byddai un arolwg newydd yn ei ganiatáu."

## (5) A allwch chi nodi sut mae tlodi a thlodi eithafol yn y Deyrnas Unedig yn croestorri â materion hawliau cymdeithasol ac economaidd (fel yr hawl i addysg neu'r hawl i ofal iechyd)? Rhowch enghreifftiau drwy gyfeirio at achosion penodol a normau perthnasol ym maes cyfraith hawliau dynol rhyngwladol.

**18.** Ceir nifer o enghreifftiau o sut y mae tlodi eithafol yn croestorri â hawliau sifil a gwleidyddol a hawliau economaidd a chymdeithasol yng Nghymru:

- Canfu ein **hymchwiliad diweddar i gysgu ar y stryd yng Nghymru** mai 47 oed yw disgwyliad oes person sy'n cysgu ar y stryd. Ar hyn o bryd, mae dros 300 o bobl yn byw ar strydoedd Cymru, sy'n groes i'w hawl i fywyd a llesiant corfforol a meddyliol. Gwnaethom ystod o argymhellion ymarferol i leihau achosion o gysgu ar y stryd yng Nghymru, gan gynnwys diddymu 'angen blaenoriaethol' am lety i sicrhau bod angen blaenoriaethol yn cael ei bennu yn achos pob person sy'n byw ar y stryd.

- Yn ein **hymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru**, fe wnaethom glywed hanesion o amddifadedd ymysg pobl sy'n aros am ganlyniadau ceisiadau lloches. Fe wnaethom ganfod "[nad] yw nifer y bobl amddifad yng Nghymru yn hysbys, ond mae nifer y bobl sydd wedi'u hatgyfeirio at y Groes Goch Brydeinig i gael cymorth amddifadedd yng Nghasnewydd a Chaerdydd wedi dyblu yn y blynyddoedd diweddar (o 564 achos yn 2013, i 1,027 yn 2015)". Er ein bod yn croesawu **cynigion diweddar** Llywodraeth Cymru i atal amddifadedd drwy bolisi cynhwysiant ariannol, rydym yn pwysleisio ein casgliad "[nad] yw’r ffaith mai Llywodraeth y DU sy’n gyfrifol yn y pen draw am fewnfudo yn anwybyddu’r ddyletswydd foesol sydd ar Lywodraeth Cymru i helpu pobl yng Nghymru sydd mewn angen dybryd". Rydym yn parhau i argymell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa grant brys fechan ar gyfer ceiswyr lloches a'r rheini nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus, sy'n debyg i gynllun y Groes Goch yng Ngogledd Iwerddon.

- Yn ein hymchwiliad diweddar i **feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith**, fe wnaethom ganfod bod 54,000 o fenywod yn y DU yn colli eu swyddi bob blwyddyn oherwydd arferion cyflogaeth gwahaniaethol. Fe wnaethom glywed nifer o enghreifftiau o fenywod mewn cyflogaeth â chyflog isel yn cael eu diswyddo neu eu gorfodi i adael yn ystod cyfnod mamolaeth neu ar ôl dychwelyd i'r gwaith. Fe wnaethom glywed hefyd "ei bod yn hawdd cael gweithwyr yn lle pobl mewn gwaith di-grefft yn y farchnad lafur, a'u bod felly'n fwy agored i wahaniaethu a thriniaeth annheg o ganlyniad i feichiogrwydd a mamolaeth".

## (6) Pa rannau o'r Deyrnas Unedig y dylai'r Rapporteur Arbennig ymweld â nhw yn sgil y sefyllfa o ran tlodi a hawliau dynol yn y rhannau hynny?

**19.** Dylai'r Rapporteur Arbennig ymweld â Chymru, fel y wlad sydd â'r lefelau uchaf o dlodi yn y DU. Dylai ymweld ag ardaloedd gwledig a threfol i ddeall sut y mae tlodi a thlodi eithafol yn dangos ei hun mewn gwahanol gyd-destunau, a sut y mae materion sy'n unigryw i Gymru (fel y Gymraeg a'r cyd-destun datganoli) yn effeithio ar fynediad at gyflogaeth, gwasanaethau cyhoeddus a budd-daliadau.

## (7) Pa unigolion a sefydliadau y dylai'r Rapporteur Arbennig gwrdd â nhw yn ystod ei ymweliad â'r Deyrnas Unedig?

**20.** Yng Nghymru: Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau; Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith; Sefydliad Bevan; Oxfam Cymru; Cynghrair Ffoaduriaid Cymru; Ymddiriedolaeth Trussell; Shelter Cymru; Crisis; Llamau.

## C. Y CREDYD CYNHWYSOL

## (16) Beth yw effaith y Credyd Cynhwysol ar dlodi a bywydau pobl dlawd yn y Deyrnas Unedig hyd yn hyn? Byddai hefyd yn ddefnyddiol gwahaniaethu rhwng effaith benodol y Credyd Cynhwysol ar grwpiau penodol, gan gynnwys plant, pobl ag anableddau, menywod a grwpiau eraill a allai fod yn fwy agored i niwed ar sail pwy ydyn nhw a'u hamgylchiadau.

**21.** Fe wnaethom godi ystod o faterion penodol ynghylch cyflwyno'r Credyd Cynhwysol y gellir eu darllen yn **ein gohebiaeth** gyda Llywodraeth y DU.

**22.** Yn ein hadroddiad diweddar ynghylch **cysgu ar y stryd yng Nghymru**, fe wnaethom dynnu sylw at ddiwygio lles fel un o'r materion strwythurol sy'n achosi cysgu ar y stryd ac un o'r ffactorau sydd wedi achosi'r cynnydd diweddar mewn cysgu ar y stryd. Ein pryder mwyaf yw nad yw canlyniadau llawn Credyd Cynhwysol wedi'u gweld eto yng Nghymru.

**23.** Yn ein hymchwiliad '***Gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel'***, fe ddaethpwyd i'r casgliad a ganlyn:

> "Yn y sefyllfa ariannol bresennol, ac yn wyneb diwygiadau lles, mae rheoli cyllid yn dod yn fwyfwy heriol, i'r rhai tlotaf a mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.
>
> Credwn y byddai cael yr hyblygrwydd i newid y ffordd y caiff y Credyd Cynhwysol ei weinyddu yn galluogi Llywodraeth Cymru i weithredu mewn ffordd sy'n fwy addas i ddiwallu anghenion hawlwyr yng Nghymru. Er enghraifft, darparu taliadau i hawlwyr ddwywaith y mis a'u galluogi i gael eu gwneud yn uniongyrchol i landlordiaid er mwyn helpu i leihau'r risg o ôl-ddyledion rhent. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gofyn am bwerau dros weinyddu'r Credyd Cynhwysol yn debyg i'r rhai sydd ar gael i Lywodraeth yr Alban."

## F. Brexit

### (28) Beth yw goblygiadau posibl Brexit i sefyllfa'r rheini sy'n byw mewn tlodi yn y Deyrnas Unedig?

**24.** Yn ein **hymchwiliad ar y cyd i effaith Brexit ar hawliau dynol yng Nghymru**, fe wnaethom nodi "ar hyn o bryd, bydd Cymru'n cael £370 miliwn y flwyddyn gan yr Undeb Ewropeaidd i'w fuddsoddi yn Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020 [sy'n cynnwys Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop]. [...] Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd (EO a GM) yw un o'r tair thema drawsbynciol sydd wedi'u cynnwys yn rhan o Raglenni 2014-2020".

**25.** Aethom ymlaen i ddweud:

> "Mae gwaith ymchwil a wnaed yn ddiweddar gan y Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar sut y bydd cyllid yr UE ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael ei ddisodli ar ôl Brexit yn tynnu sylw at y ffaith bod amcanion 8, 9 a 10 [o Raglen Cronfeydd Strwythurol

a Buddsoddi yr Undeb Ewropeaidd] yn ymwneud yn uniongyrchol â chydraddoldeb a hawliau dynol, ac y bydd y cyllid hwn yn werth £4.15 biliwn yn y DU rhwng 2014 a 2020.

Y grwpiau targed ar gyfer y tri amcan hyn yw: pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs), pobl sy'n 50 oed neu'n hŷn, menywod, pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig, pobl â rhwystrau cymhleth lluosog, troseddwyr a chyn-droseddwyr. Canfu'r gwaith ymchwil fod cyllideb Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn £1.4 biliwn yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae oddeutu 60 y cant o brosiectau sy'n cael eu hariannu drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn targedu pobl sydd ag un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig sydd wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Canfu hefyd fod mwy na hanner y cyllid a geir drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn targedu cyflogadwyedd, sgiliau a phrofiad. Mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol eisoes wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch dyfodol y cyllid a geir o Gronfa Gymdeithasol Ewrop fel rhan o'i ymchwiliad i ddyfodol polisi rhanbarthol yng Nghymru. Yn ddiweddar, gwnaeth y Pwyllgor argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru "geisio eglurder gan Lywodraeth y DU ar sut y byddai'r Gronfa Rhannu Ffyniant arfaethedig yn cael ei dyrannu a'i gweinyddu".

**26.** Rydym yn **argymell** y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Ddeddf Cydraddoldeb ar waith, gan ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wneud penderfyniadau mewn ffordd sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran canlyniadau a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Alban wrthi'n cyflwyno'r ddyletswydd.

**27.** **Dywedodd** Llywodraeth Cymru wrthym y "byddwn yn adolygu ein safbwynt yng nghyd-destun ein Hadolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol yng Nghymru ac archwilio'r materion a lywiodd penderfyniad Llywodraeth yr Alban i weithredu'r ddyletswydd. Bydd angen inni ystyried yn ofalus a fyddai'n gywir gosod dyletswyddau ychwanegol a chyfrifoldebau adrodd ar Gyrff Cyhoeddus Cymru yn arbennig pan mae gennym y ddyletswydd gyfreithiol flaengar yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrth inni fynd i'r afael â'r gwaith hwn."

# Atodiad 1: Aelodau'r Pwyllgor

John Griffiths (AC),  Chair,  Llafur Cymru, Dwyrain Casnewydd

Gareth Bennett AC, Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP), Canol De Cymru

Janet Finch-Saunders AC, Ceidwadwyr Cymreig, Aberconwy

Siân Gwenllian AC, Plaid Cymru, Arfon

Rhianon Passmore AC, Llafur Cymru, Islwyn

Jenny Rathbone AC, Llafur Cymru, Canol Caerdydd

Jack Sargeant AC, Llafur Cymru, Alun a Glannau Dyfrdwy

Bethan Sayed AC, Plaid Cymru, Gorllewin De Cymru

# Atodiad 2: Gwaith pwyllgor perthnasol

## Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (2011-2016)

- Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad
- Tlodi yng Nghymru – dulliau o drechu tlodi yn y gymuned
- Tlodi yng Nghymru – tlodi ac anghydraddoldeb
- Dyfodol cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru
- Gwaith craffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru 2016/17; 2015/16; 2014/15; 2013/14; a 2012/13

## Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

- Rhianta a chyflogaeth yng Nghymru
- Gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel
- Dulliau yn seiliedig ar asedau i leihau tlodi
- Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd
- Cysgu ar y stryd yng Nghymru
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru
- Ymchwiliad i hawliau dynol yng Nghymru
- Gwaith craffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru 2018/19;  2017/18